OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1846 (Cy. 273)

# LLESIANT, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Buddiannau Cofrestradwy) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *29 Hydref 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad nedlaethol Cymru - -* | *2 Tachwedd 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *23 Tachwedd 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 13(2)(a) o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Buddiannau Cofrestradwy) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Tachwedd 2015.

**Buddiannau cofrestradwy**

**2.** Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn pennu buddiannau cofrestradwy Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru at ddibenion paragraffau 13, 14 a 15 o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

29 Hydref 2015

(**1**) 2015 dccc 2.

YR ATODLEN

Rheoliad 2

BUDDIANNAU COFRESTRADWY

# RHAN 1

**Dehongli**

**1.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr "aelod o deulu" ("*family member*") mewn perthynas â'r Comisiynydd yw partner y Comisiynydd ac unrhyw blentyn;

ystyr "y Comisiynydd" ("*the Commissioner*") yw Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (p'un ai'n unigol neu gyda'i gilydd);

ystyr "y Ddeddf" ("the *Act*") yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;

ystyr "eiddo perthnasol" ("*relevant property*") yw tir neu eiddo deallusol y mae'r Comisiynydd yn dal mewn cysylltiad ag ef fuddiant sydd wedi ei gaffael drwy arian a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 16 o Atodlen 2 i'r Ddeddf;

ystyr "partner" ("*partner*") yw priod, partner sifil neu un o gwpl p'un ai o'r un rhyw neu o'r rhyw arall sy'n byw gyda'i gilydd, er nad ydynt yn briod â'i gilydd, ac sy'n trin ei gilydd fel dau briod;

ystyr "plentyn" ("*child*") yw unrhyw berson sydd, adeg cofrestru'r buddiant, naill ai yn—

(a) plentyn i'r Comisiynydd;

(b) llysblentyn i'r Comisiynydd drwy briodas neu bartneriaeth sifil;

(c) person sydd wedi ei fabwysiadu'n gyfreithiol gan y Comisiynydd;

(d) person sydd wedi ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r Comisiynydd; neu

(e) person sydd o dan un mlwydd ar bymtheg oed, neu o dan bedair blwydd ar bymtheg oed ac yn cael addysg lawnamser, ac sydd am y chwe mis calendr blaenorol wedi cael cefnogaeth ariannol gan y Comisiynydd.

# RHAN 2

**Buddiannau**

**2.** Y buddiannau y cyfeirir atynt yn rheoliad 2 yw—

(a) manylion unrhyw swydd neu gyflogaeth [am dâl neu heb dâl] a ddelir gan y Comisiynydd neu aelod o'i deulu;

(b) manylion unrhyw fuddiant a ddelir gan y Comisiynydd neu aelod o'i deulu mewn eiddo perthnasol;

(c) enwau unrhyw gwmnïau neu gyrff eraill y mae gan y Comisiynydd, naill ai ar ei ben ei hun neu gydag aelod o'i deulu, neu ar ran aelod o'i deulu, fuddiant llesiannol mewn cyfranddaliadau;

(d) swyddi cyfarwyddwyr am dâl a ddelir gan y Comisiynydd mewn unrhyw gwmni, gan gynnwys swyddi cyfarwyddwyr na thelir tâl iddynt yn unigol ond lle y telir tâl drwy gwmni arall yn yr un grŵp;

(e) enwau unrhyw gwmnïau neu gyrff eraill y mae'r Comisiynydd yn ymddiriedolwr ynddynt;

(f) manylion unrhyw dâl, cyllid, rhodd, neu fudd ar ffurf nwyddau neu wasanaethau a geir gan y Comisiynydd, mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd, oddi wrth unrhyw gwmni neu gorff; ac

(g) manylion unrhyw swydd a ddelir gan y Comisiynydd mewn plaid wleidyddol.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae paragraff 13(1) o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yn gwneud darpariaeth bod rhaid i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ("y Comisiynydd") greu a chynnal cofrestr sy'n cynnwys holl fuddiannau cofrestradwy'r Comisiynydd a holl rai Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ("y Dirprwy Gomisiynydd").

Mae paragraff 13(2)(a) o Atodlen 2 i'r Ddeddf yn darparu i Weinidogion Cymru bŵer, drwy reoliadau, i bennu pa fuddiannau sy'n fuddiannau cofrestradwy at ddibenion paragraffau 13, 14 a 15 o Atodlen 2 i'r Ddeddf.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn gan ddibynnu ar y pŵer a ddarparwyd gan baragraff 13(2)(a) o Atodlen 2 i'r Ddeddf. Mae rheoliad 2 yn cyflwyno'r Atodlen i'r Rheoliadau sy'n pennu buddiannau cofrestradwy'r Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd.

Ni pharatowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Rheoliadau hyn.